# Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant ar gyfer Ysgol Gyfun Gwent Is Coed

**Cynnwys:**


1. Cyflwyniad
2. Atal
3. Gweithdrefnau
4. Cefnogi'r disgybl sydd mewn perygl
5. Recriwtio mwy diogel
6. Polisi Chwythu'r Chwiban
7. Gwybodaeth i staff
8. Cyfrinachedd
9. Ymgyrch Encompass
10. Atodiad A: Trosglwyddo cofnodion diogelu dysgwr

Atodiad B: Datganiad Polisi

Atodiad C: COVID 19


## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn cydnabod yn llawn y cyfraniad a wna at amddiffyn plant.

Mae tair prif elfen i'n polisi:

1. atal drwy addysgu a chymorth bugeiliol a gynigir i ddisgyblion

2. gweithdrefnau ar gyfer nodi ac adrodd ar achosion, neu achosion a amheuir, o gam-drin. Oherwydd ein cyswllt o ddydd i ddydd â phlant mae staff ysgol mewn sefyllfa dda i sylwi ar arwyddion allanol cam-drin

3. cymorth i ddisgyblion sydd wedi cael eu cam-drin o bosibl.

1.2 Mae ein polisi yn gymwys i bob aelod o staff a gwirfoddolwr sy'n gweithio yn yr ysgol a llywodraethwyr. Gall cynorthwywyr cymorth dysgu, goruchwylwyr canol dydd, gofalwyr, staff derbynfa yn ogystal ag athrawon fod yn bwynt cyswllt cyntaf i blentyn ddatgelu rhywbeth.

Brig y ddogfen

## 2. Atal

2.1 Rydym yn cydnabod bod hunan-barch uchel, hyder, ffrindiau cefnogol a llinellau cyfathrebu da gydag oedolyn y gellir ymddiried ynddo yn helpu i ddiogelu disgyblion.

Felly, bydd yr ysgol:

1. yn sefydlu ac yn cynnal ethos lle mae plant yn teimlo'n ddiogel a lle y cânt eu hannog i siarad, a gwrandewir arnynt

2. yn sicrhau bod plant yn gwybod bod yna oedolion yn yr ysgol y gallant fynd atynt os ydynt yn poeni neu mewn trafferth

3. yn cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn y cwricwlwm sy'n rhoi'r sgiliau i blant sydd eu hangen arnynt i gadw'n ddiogel rhag camdriniaeth ac i wybod at bwy y gallant droi am help

4. yn cynnwys deunydd yn y cwricwlwm a fydd yn helpu plant i ddatblygu agweddau realistig tuag at gyfrifoldebau bywyd fel oedolyn, yn enwedig o ran gofal plant a sgiliau rhianta.

Brig y Ddogfen

## 3. Gweithdrefnau

3.1 Byddwn yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru sydd wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd Diogelu Plant Lleol.
3.2 Bydd yr ysgol:

1. yn sicrhau bod ganddi uwch-berson dynodedig ar gyfer amddiffyn plant sydd wedi cael yr hyfforddiant priodol

2. yn cydnabod rôl yr uwch-berson dynodedig a threfnu cymorth a hyfforddiant.

3. yn sicrhau bod pob aelod o staff a phob llywodraethwr yn gwybod:
• enw'r uwch-berson dynodedig a'i rôl a'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer amddiffyn plant
• sut i weithredu ar y pryderon hynny os na fydd yr uwch-berson dynodedig ar gael.

4. yn sicrhau bod aelodau staff yn gwybod bod angen bod yn effro i arwyddion cam-drin a gwybod sut i ymateb i ddisgybl a all ddatgelu ei fod yn cael ei gam-drin

5. yn sicrhau bod gan rieni ddealltwriaeth o'r cyfrifoldeb sydd ar yr ysgol a'r staff am amddiffyn plant drwy nodi ei rhwymedigaethau yn llyfryn yr ysgol

6. yn darparu hyfforddiant i bob aelod o staff fel eu bod yn gwybod:
• beth yw eu cyfrifoldeb personol
• beth yw'r gweithdrefnau lleol
• bod angen bod yn effro i arwyddion o gam-drin
• sut i helpu plentyn sy'n datgelu ei fod yn cael ei gam-drin.

7. hysbysu'r tîm gwasanaethau cymdeithasol lleol:
• os caiff disgybl sydd ar y gofrestr amddiffyn plant ei ddiarddel naill am gyfnod penodol neu'n barhaol
• os yw disgybl sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol heb eglurhad am fwy na dau ddiwrnod o'r ysgol (neu am ddiwrnod ar ôl y penwythnos)

8. yn gweithio i ddatblygu cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau perthnasol a'u helpu, yn ôl y galw, gyda'u hymholiadau ynghylch materion amddiffyn plant gan gynnwys presenoldeb yn yr adolygiad cychwynnol a'r cynadleddau amddiffyn plant a'r grwpiau craidd a chyflwyno adroddiadau ysgrifenedig ar gyfer y cynadleddau

9. yn cadw cofnodion ysgrifenedig o bryderon ynghylch plant (gan nodi'r dyddiad, y digwyddiad a'r camau a gymerwyd), hyd yn oed pan nad oes angen cyfeirio'r mater ar y gwasanaethau cymdeithasol ar unwaith

10. yn sicrhau y cedwir pob cofnod yn ddiogel ac mewn lleoliadau dan glo.

11. yn dilyn y gweithdrefnau a nodwyd yng nghylchlythyr 002/113 Llywodraeth Cymru: 'Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol'

12. sicrhau y caiff gweithdrefnau recriwtio a dethol eu gwneud yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel'

13. yn dynodi llywodraethwyr ar gyfer amddiffyn plant a fydd yn goruchwylio polisi ac ymarfer amddiffyn plant yr ysgol

Brig y Ddogfen

## 4. Cefnogi'r disgybl sydd mewn perygl

4.1 Rydym yn cydnabod bod sefyllfa lle mae plentyn mewn perygl, yn cael ei gam-drin neu'n dyst i drais yn gallu cael effaith fawr ar y plentyn hwnnw.

4.2 Efallai mai'r ysgol yw'r unig elfen sefydlog, ddiogel a rhagweladwy ym mywydau plant sydd mewn perygl. Serch hynny, pan fyddant yn yr ysgol gall eu hymddygiad fod yn heriol a herfeiddiol neu gallant fynd i'w cragen.

4.3 Bydd yr ysgol yn ymdrechu i gefnogi'r disgybl drwy'r canlynol:
• cynnwys y cwricwlwm i annog hunan-barch a hunan-gymhelliant
(gweler adran 2 ar atal)
• ethos yr ysgol sy'n:
i) hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel
ii) rhoi ymdeimlad o werth i ddisgyblion (gweler adran 2 ar Atal)

4.4. polisi Perthnasau ac Ymddygiad yr ysgol sydd â'r nod o gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed yn yr ysgol. Bydd pob aelod o staff yn cytuno ar ddull gweithredu cyson sy'n canolbwyntio ar ymddygiad y plentyn ond nid yw'n niweidio hunan-werth y disgybl. Bydd yr ysgol yn ymdrechu i sicrhau bod y disgybl yn gwybod bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol ond ei fod yn cael ei werthfawrogi ac nad yw'n cael ei feio am unrhyw gam-drin sydd wedi digwydd;

4.5 cysylltu ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r disgybl megis Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad, Gwasanaeth Lles Addysg a gwasanaethau eiriolaeth. Pan fydd unrhyw asiantaethau allanol fel y rhai a rhestrir uchod, a gan gynnwys yr Heddlu, yn gofyn am gael siarad â disgyblion, byddwn bob amser yn cynnig y dewis i'r plentyn o gael aelod o staff yn bresennol. Os nad yw'r cyfarfod yn un sydd wedi ei drefnu ymlaen llaw, ac oni bai bod rheswm diogelu dros beidio â gwneud hynny, byddwn yn cysylltu â rhieni fel eu bod yn ymwybodol ei fod yn cael ei gynnal.

4.6 cadw cofnodion a hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted ag y bydd pryder yn ailgodi

4.7 Pan fydd disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant yn gadael, byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r ysgol newydd ar unwaith ac yn hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Bwlio**

4.8 Mae ein polisi ar fwlio i'w weld mewn dogfen ar wahân ac fe'i hadolygir bob blwyddyn gan y corff llywodraethu.

**Ymyrraeth Gorfforol**

4.9 Mae ein polisi ar ymyrraeth gorfforol i'w weld mewn dogfen ar wahân ac fe'i hadolygir bob blwyddyn gan y corff llywodraethu ac mae'n gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar ymyriad diogel ac effeithiol - defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau 097/2013

**Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Cydnabyddwn yn ystadegol mai plant ag anawsterau ymddygiad ac anableddau yw'r rhai sydd fwyaf agored i gael eu cam-drin. Mae angen i staff ysgol sy'n delio â phlant ag anableddau dwys a lluosog, nam ar y synhwyrau a/neu broblemau emosiynol neu ymddygiad fod yn arbennig o sensitif i arwyddion o gam-drin. Mae polisi'r ysgol ar ADY i'w weld mewn dogfen ar wahân a gellir dod o hyd i'r polisi hwn/gwybodaeth hon drwy holi'r ysgol.

**E-Ddiogelwch**

4.10 Mae polisi'r ysgol ar E-Ddiogelwch i'w weld yn (dogfen ar wahân/polisi TG yr ysgol). Gellir dod o hyd i'r polisi hwn/gwybodaeth hon drwy holi'r ysgol.

**Plant sy'n ymuno â'r System Plant sy'n Derbyn Gofal**

4.11 Mae'r ysgol hon yn cydnabod mai plant sy'n ymuno â'r System Plant sy'n Derbyn Gofal yw'r rhai sydd fwyaf agored i niwed a'r rhai mwyaf anghenus. Mae polisi'r ysgol ar Blant sy'n Derbyn Gofal i'w weld yn dogfen ar wahân a gellir dod o hyd i'r polisi hwn/gwybodaeth drwy holi'r ysgol.

**Radicaleiddio**

4.12 Mae'r ysgol yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau (o dan Adran 26 o Ddeddf Gwrth-derfysgaeth a Diogelwch 2015 a Chanllawiau Dyletswydd i Atal) i ddiogelu disgyblion sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio. Gwna'r ysgol hyn drwy:

- Ddarparu amgylchedd diogel i ddisgyblion siarad am faterion a all beri pryder iddynt, gan gynnwys pynciau sensitif fel terfysgaeth ac ideoleg eithafol.
- Nodi ac asesu risg unigolion a all gael eu denu at derfysgaeth, eithafiaeth dreisgar neu ddi-drais.
- Gwybod sut i gwblhau atgyfeiriad Channel a sut i gael cefnogaeth i'r plentyn/person ifanc
- Sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant priodol a'u bod yn meddu ar y wybodaeth a'r hyder i nodi disgyblion sydd mewn perygl o gael eu denu at derfysgaeth ac eithafiaeth a herio syniadau eithafol.
- Sicrhau bod plant yn ddiogel rhag deunyddiau terfysgaeth ac eithafiaeth pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd yn yr ysgol, yn cynnwys rhoi lefelau hidlo priodol ar waith.

**Gofyniad i hysbysu'r heddlu am achosion o Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)**

4.13 Mae'r ysgol yn ymwybodol o'i dyletswydd i hysbysu'r heddlu am achosion hysbys o FGM (adran 74 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015). Pan fydd staff yn amau bod achos o FGM wedi digwydd neu os credant y gall merch fod mewn perygl, yna bydd yr ysgol yn dilyn gweithdrefnau diogelu sydd eisoes yn bodoli yn yr achosion hyn.

**Cam-drin Domestig a Thrais ar sail Rhywedd**

4.14 Mae hyn yn ymwneud â'r canlynol: cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol lle mae'r dioddefwr yn byw gyda'r un sy'n cam-drin neu'n perthyn iddo. Gall dynion, menywod a phlant fod yn ddioddefwyr.

Mae plant mewn teuluoedd, lle mae problem cam-drin domestig, mewn perygl o gael eu niweidio.

Trais ar sail rhywedd yw trais neu fygythiadau o drais sy'n deillio o gredoau neu arferion sy'n gysylltiedig â rhywedd.

Trais rhywiol - yn cynnwys camfanteisio, aflonyddu neu fygythiadau o natur rywiol.

Yn aml ceir cysylltiadau rhwng cam-drin domestig a cham-drin plant. Pan fydd ysgolion yn gwybod neu'n amau bod cam-drin domestig yn y cartref yna dylai'r uwch-berson dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant gymryd camau priodol.
Ceir canllawiau pellach yn: 'Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig: Diogelu Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru'

Brig y Ddogfen

## 5. Recriwtio mwy diogel

Yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru (Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Pennod 5 Arferion Recriwtio Mwy Diogel), bydd yr ysgol hon yn dilyn prosesau rheoli Adnoddau Dynol, sy'n cynnwys gwiriad cofnodion troseddol a gwiriad rhestr waharddedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Bydd yn ofynnol i bob aelod o staff, gwirfoddolwyr a llywodraethwyr gadw tystysgrif ddatgelu gyfredol y Gwasanaeth Gwahardd a Datgelu, lle y bo'n gymwys, yn unol â rheoliadau'r Gwasanaeth Gwahardd a Datgelu.
Gellir cael canllawiau pellach ar hyn oddi wrth yr adran Adnoddau Dynol. Bydd yr ysgol yn cadw cofnod o holl ddyddiadau datgelu staff y Gwasanaeth Gwahardd a Datgelu ac yn sicrhau bod y gwaith adnewyddu yn cael ei gyflawni ar amser yn unol â pholisïau Adnoddau Dynol.

Dylai'r gwaith o benodi staff yn ddyddiol mewn ysgolion orfod bodloni'r un gofynion llym â'r rhai a ddefnyddir ar gyfer aelodau parhaol o staff. Bydd y Pennaeth yn sicrhau bod gan unrhyw un a benodir i weithio yn yr ysgol gymwysterau, geirdaon a gwiriadau boddhaol.

Y Pennaeth fydd yn gyfrifol am sicrhau bod pob un sy'n dod ar safle'r ysgol wedi cael ei asesu'n briodol o ran risg mewn amgylchiadau lle nad yw datgeliadau cyfredol y Gwasanaeth Gwahardd a Datgelu ar gael.

Brig y Ddogfen

## 6. Polisi Chwythu'r Chwiban

6. Mae polisi chwythu'r chwiban yr ysgol i'w weld mewn dogfen ar wahân. Gellir dod o hyd i'r polisi hwn/gwybodaeth hon drwy holi'r ysgol.

Brig y Ddogfen

## 7. Gwybodaeth i staff

7.1 wybod beth i'w wneud os bydd plentyn yn dweud wrthych ei fod wedi cael ei gam-drin gan rywun heblaw am aelod o staff.

7.2 Lle mae'r honiad yn erbyn aelod o staff, dylech gyfeirio at Gylchlythyr 002/2013 Llywodraeth Cymru Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol a 009/2014 Diogelu Plant mewn Addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill. Rhaid hysbysu Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol am unrhyw honiadau yn erbyn aelod o staff neu'r Swyddog Diogelu Addysg ar unwaith cyn cymryd unrhyw gamau pellach.

Gall plentyn ymddiried mewn unrhyw aelod o staff ac efallai na fydd bob amser yn mynd at aelod o'r staff addysgu. Dylai staff y gwneir honiad iddynt gofio'r canlynol bob amser:

i) rôl wrando sydd gennych chi, peidiwch â thorri ar draws plentyn yn siarad os yw'n dwyn i gof ddigwyddiadau pwysig yn ddigymell. Peidiwch â holi gormod o gwestiynau er mwyn i chi ddeall yr hyn y mae'r plentyn yn ei ddweud. Dylech lunio cwestiynau mewn ffordd agored fel nad ydych yn camarwain y plentyn

ii) rhaid i chi roi gwybod i uwch-berson dynodedig yr ysgol ar gyfer amddiffyn plant ar lafar ar unwaith

iii) gwnewch nodyn o'r drafodaeth, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (ond o fewn 24 awr) i'w drosglwyddo i berson dynodedig yr ysgol ar gyfer amddiffyn plant. Dylai'r nodyn, a ddylai fod yn glir o ran ei ddefnydd o derminoleg, gofnodi'r amser, y dyddiad, y lle a'r bobl a oedd yn bresennol a dylai gofnodi atebion/ymatebion y plant yn yr union ffordd ag y cawsant eu dweud hyd y gellir. Cofiwch, efallai y caiff eich nodyn o'r drafodaeth ei ddefnyddio mewn achos llys dilynol

iv) peidiwch ag addo cyfrinachedd llwyr

v) y gall fod yn rhaid i blentyn sy'n aros i achos fynd gerbron llys troseddol, roi tystiolaeth neu gall fod yn aros am achos gofal

vi) mae eich cyfrifoldeb o ran atgyfeirio pryderon yn dod i ben ar y pwynt hwn, ond efallai y bydd gennych ran i'w chwarae yn y dyfodol o ran helpu neu fonitro'r plentyn, cyfrannu at asesiad neu roi cynlluniau amddiffyn plant ar waith.

Brig y Ddogfen

## 8. Cyfrinachedd

8. Bydd angen deall materion cyfrinachedd os bydd plentyn yn datgelu gwybodaeth ei fod yn cael ei gam-drin. Dim ond os bydd plentyn yn teimlo na chaiff y wybodaeth ei datgelu i unrhyw un arall y gall deimlo'n ddigon hyderus i ymddiried mewn aelod o staff. Fodd bynnag, mae gan staff addysg gyfrifoldeb proffesiynol i rannu gwybodaeth berthnasol ynglŷn ag amddiffyn plant â'r asiantaethau statudol dynodedig pan fydd gan blentyn bryderon lles.

Mae'n bwysig bod pob aelod o staff yn delio â hyn mewn ffordd sensitif ac yn egluro i'r plentyn fod yn rhaid iddo hysbysu'r bobl briodol a all helpu'r plentyn, ac mai dim ond wrth y rhai sydd angen gwybod er mwyn gallu helpu y bydd yn dweud. Dylai'r aelod o staff sicrhau'r plentyn na fydd ei sefyllfa yn hysbys i bawb yn yr ysgol. Byddwch yn ymwybodol y gall fod wedi cymryd cryn dipyn o ddewrder ar ran y plentyn i ddatgelu'r wybodaeth ac y gall hefyd fod yn profi emosiynau croes, yn cynnwys teimlo'n euog, â chywilydd, yn anffyddlon (os yw'r camdriniwr yn rhywun agos ato) a loes meddwl.

Cofiwch am gyfrifoldeb bugeiliol y gwasanaeth addysg. Sicrhewch mai dim ond rheini sydd â chysylltiad proffesiynol, e.e. yr uwch-berson dynodedig a'r pennaeth, sydd â hawl i weld y cofnodion amddiffyn plant. Ar bob adeg arall, dylid eu cadw dan glo yn ddiogel a'u cadw ar wahân i brif ffeil y plentyn.

Yr uwch-berson dynodedig ar gyfer amddiffyn plant yn yr ysgol hon yw:
Owain James

Y dirprwy dynodedig yw:
Abigail Williams

Y llywodraethwr dynodedig ar gyfer amddiffyn plant yw:

Jane Marshall

Swyddog Diogelu Addysg yr awdurdod lleol yw:
Nicola Davies nic.davies@newport.gov.uk

Swyddog Arweiniol Dynodedig yr awdurdod lleol ar gyfer amddiffyn plant yw:
Mike Sloan mike.sloan@newport.gov.uk

Awdur: L Meade – Amddiffyn Plant
Awdur Adolygu: Nicola Davies – Swyddog Diogelu Addysg

Dyddiad: Ionawr 2024
Dyddiad Adolygu: Ionawr 2025

Brig y Ddogfen

## 9. **Ymgyrch Encompass**

Mae Operation Encompass yn bartneriaeth rhannu gwybodaeth gynnar yr heddlu ac addysg, sy'n galluogi ysgolion i gynnig cefnogaeth ar unwaith i blant a phobl ifanc sy'n profi cam-drin domestig. Mae gwybodaeth yn cael ei rannu gan yr heddlu gydag arweinydd diogelu'r ysgol, cyn dechrau'r diwrnod ysgol nesaf ar ôl i swyddogion fynychu digwyddiad cam-drin domestig. Mae hyn yn golygu bod modd rhoi cymorth priodol ar waith, yn ddibynnol ar anghenion a dymuniadau'r plentyn.

Mae'r amlygiad hwn yn effeithio'n negyddol ar blant sy'n profi cam-drin domestig; cam-drin domestig wedi'i nodi fel Profiad Plentyndod Niweidiol a gall arwain at niwed emosiynol, corfforol a seicolegol. Nod Operation Encompass yw lliniaru'r niwed hwn drwy alluogi cefnogaeth ar unwaith i'r plentyn.

# Atodiad A - Trosglwyddo cofnodion diogelu dysgwr

**RHAN 1: I'w lenwi gan yr ysgol mae'r dysgwr yn gadael**

• Pan rydych yn gwybod bod dysgwr sydd ar y gofrestr diogelu (neu ble mae consyrn diogelu) yn symud ysgol, cysylltwch gydag uwch berson dynodedig ar gyfer amddiffyn plant yr ysgol newydd o fewn dau ddiwrnod o'r dysgwr yn gadael eich ysgol er mwyn rhannu gwybodaeth.
• Mae angen sicrhau bod y ffeil diogelu yn cael ei drosglwyddo i Uwch berson dynodedig yr ysgol newydd gan ddefnyddio ffurf diogel o gludo gyda RHAN 1 y ffurflen yma wedi ei gwblhau. Dylid nodi 'Cyfrinachol, at sylw'r uwch berson dynodedig yn unig' ar y ffeil.
• Cadwch gopi o'r ffurflen yma.

| | |
|---|---|
| ENW'R DYSGWR: | |
| DYDDIAD GENI: | |
| ENW'R YSGOL SY'N ANFON Y FFEIL DIOGELWCH: | |
| CYFEIRIAD YR YSGOL SY'N ANFON: | |
| DYDDIAD ANFON: | |
| ENW'R UWCH BERSON DYNODEDIG AR GYFER AMDDIFFYN PLANT: | |
| FFORDD O GLUDO: | |
| LLOFNOD: | |

**RHAN 2: I'w lenwi gan yr ysgol newydd**

• Cwblhewch a dychwelwch y ffurflen hon i'r Swyddog Dynodedig a restrir yn Rhan 1 uchod.
• Os dewiswch ddychwelyd y ffurflen hon yn electronig, sicrhewch ei bod yn cael ei chwblhau'n ddiogel.
• Fe'ch cynghorir i gadw copi o'r ffurflen hon er gwybodaeth i chi.
• Dylid storio'r ffeil ddiogelu yn ddiogel, ac i ffwrdd o brif ffeil y disgybl.

| | |
|---|---|
| CYFEIRIAD YR YSGOL SY'N DERBYN Y FFEIL: | |
| DYDDIAD DERBYN: | |
| ENW'R UWCH BERSON DYNODEDIG YN DERBYN Y FFEIL: | |
| FFEIL YN GYFLAWN PAN DERBYNIWYD? | |
| LLOFNOD: | |

[Brig y Ddogfen](#)

## Atodiad B – Datganiad Polisi

**Cydlyniant Cymunedol - Atal Eithafiaeth**
Mae ein hysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd diogel i'n holl ddysgwyr, staff ac unrhyw ymwelwyr. Nid oes lle i gael barnau eithafol o unrhyw fath yn ein hysgol.

Cydlyniant cymunedol yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio sut mae pawb mewn ardal ddaearyddol yn byw ochr yn ochr â'i gilydd gyda chyd-ddealltwriaeth a pharch. Cymuned gydlynol yw lle mae gan berson ymdeimlad cryf o berthyn. Mae'n ddiogel, yn fywiog ac yn gallu bod yn wydn ac yn gryf pan fydd tensiynau'n digwydd.

Mae'r sawl sy'n ymwneud â chefnogi terfysgaeth yn ceisio ecsbloetio a radicaleiddio pobl fregus, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Ers mis Gorffennaf 2015, cyflwynodd Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 ddyletswydd statudol arnom ni i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth.

Rydym yn ymwybodol y gall pobl ifanc fod yn agored i ddylanwadau eithafol neu safbwyntiau rhagfarnllyd o oedran ifanc, sy'n tarddu o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys y rhyngrwyd. Weithiau gall dysgwyr, ymwelwyr neu rieni eu hunain mynegi neu arddangos barn y gellir ei hystyried yn wahaniaethol, rhagfarnllyd neu eithafiaethol, gan gynnwys defnyddio iaith ddirmygus; bydd hyn bob amser yn cael ei herio a lle bo hynny'n briodol yn cael ei drin.

Mae addysg yn ataliad pwerus yn erbyn hyn a byddwn yn ymdrechu i arfogi pobl ifanc â'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwytnwch i herio a thrafod materion o'r fath mewn ffordd hwylus a hyddysg. Fel hyn mae ein myfyrwyr yn cael eu cyfoethogi, eu deall a dod yn oddefgar o wahaniaeth ac amrywiaeth lle gallant ffynnu, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a heb eu hymyleiddio.

Mae gennym fframwaith diogelu clir ar sut i reoli ac ymateb i faterion lle mae disgybl yn datblygu neu'n mynegi safbwyntiau ac ideolegau eithafol, a ystyrir yn ymfflamychol ac yn erbyn ethos cydlyniant cymunedol ein hysgol.

Pan nodir achosion o'r fath, mae Ffurflen Cyfeirio Amlasiantaethol i'w chwblhau a'i chyflwyno i'r Gwasanaethau Plant. Dylid cysylltu hefyd â Swyddog Arweiniol yr Awdurdod Lleol ar gyfer PREVENT.

**Panel Diogelu Sianel**
Cyfrifoldeb pawb yw diogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n partneriaid i amddiffyn a chefnogi ein dysgwyr, a lle mae Ffurflen Cyfeirio Amlasiantaethol yn arwain at angen amddiffyn un o'n dysgwyr, byddwn yn cefnogi rhaglen Channel. Mae Channel yn ddull amlasiantaethol i amddiffyn pobl agored i niwed trwy nodi unigolion sydd mewn perygl; asesu natur a maint y risg honno; a datblygu'r cynllun cymorth mwyaf priodol ar gyfer yr unigolion dan sylw.

Mae Channel yn ymwneud â sicrhau bod plant ac oedolion bregus o unrhyw ffydd, ethnigrwydd neu gefndir yn derbyn cefnogaeth cyn i'r rhai a fyddai yn manteisio ar eu gwendidau eisiau iddyn nhw gofleidio terfysgaeth, a chyn iddyn nhw ddod yn rhan o weithgaredd sy'n gysylltiedig â therfysgaeth droseddol.

**Pwyntiau Cyswllt Allweddol**
Arweinydd Prevent ar gyfer NCC: Heather Powell

**Deunydd Cyfeirio**
Respect and resilience - Developing Community Cohesion - A Common Understanding for Schools and their Communities
http://gov.wales/docs/dcells/publications/110209respecten.pdf

Respect and Resilience – Developing Community Cohesion (updated January 2016, 196/2016)

http://gov.wales/docs/dcells/publications/160111-respect-and-resilience-update-en.pdf

Respect and Resilience – Developing Community Cohesion: Assessment tool:
http://gov.wales/docs/dcells/publications/160112-respect-and-resilience-self-assessment-tool-en.pdf

E-learning training on PREVENT: https://elearning.prevent.homeoffice.gov.uk

Free online resource: http://course.ncalt.com/Channel_General_Awareness
Channel Guidance: https://www.gov.uk/government/publications/channel-guidance
Prevent Duty Guidance: https://www.gov.uk/government/publications/prevent-duty-guidance

Website: http://educateagainsthate.com

Resources for parents and teachers Tackling Hate Crimes and Incidents: A Framework for Action
http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/140512-hate-crime-framework-en.pdf

Brig y Ddogfen

## Atodiad C – Cau’r ysgol mewn Argyfwng

Atodiad polisi diogelu cau’r ysgol mewn argyfwng: i'w ddarllen ar y cyd â pholisi diogelu / amddiffyn plant yr ysgol

**Dylai'r ddogfen hon gael ei diweddaru'n rheolaidd mewn ymateb i unrhyw newidiadau i ganllawiau lleol a chenedlaethol.**

**Dyletswydd i Drosglwyddo Materion Diogelu: Gwybodaeth i staff a gwirfoddolwyr os oes angen cau’r ysgol / cau'n rhannol)**

P'un ai yw dysgwyr gartref neu yn yr ystafell ddosbarth, mae diogelu a lles dysgwyr o'r pwys mwyaf ac mae'n cael blaenoriaeth dros yr holl ystyriaethau eraill. Dylai ymarferwyr barhau i ddilyn polisïau diogelu'r ysgol bob amser. Dylid delio â phob mater sy'n ymwneud â diogelu ar-lein yn yr un modd ag addysgu wyneb yn wyneb neu ryngweithio.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi'r ddyletswydd a roddir ar ymarferwyr a phartneriaid (o dan adran 162 o'r Ddeddf) i gyfeirio oedolion a phlant lle mae ganddynt achos rhesymol i amau bod y meini prawf ynghylch risg o niwed yn cael eu bodloni.

*Rhaid* atgyfeirio bob tro y bydd gan weithiwr proffesiynol bryderon am blentyn o dan 18 oed.

**Dysgu o bell a diogelu**

Dylai ysgolion gynnwys eu canllawiau i ymarferwyr ar ddysgu o bell a gwybodaeth i ddysgwyr / rhieni a gofalwyr.

Polisïau'r ysgol ar gyfer diogelwch ar-lein; dylai lles staff a dysgwyr a diogelu a dysgu o bell adlewyrchu sut y bydd fideo-gynadledda a ffrydio byw yn cael ei gynnal a'i fonitro.

Dylid cyfeirio at:
https://hwb.gov.wales/zones/keeping-safe-online/live-streaming-and-videoconferencing-safeguarding-principles-and-practice/

### Dysgu cyfunol a dysgu o bell

**Ffrydio Byw**

Bydd ffrydio byw yn cael ei gytuno ar sail unigol gan y Pennaeth (gyda chefnogaeth y corff llywodraethu). Bydd ffrydio byw unigolion neu grwpiau yn cael ei bennu yn ôl yr angen a'r rhesymau dros y cais.

Bydd yr holl wersi wedi'u ffrydio'n fyw yn cael eu cynnal gan ddefnyddio Google Meet trwy Google Classroom.

Mae diogelu a lles dysgwyr o'r pwys mwyaf ac mae'n cael blaenoriaeth dros yr holl ystyriaethau eraill. Ymdrinnir â phob mater sy'n ymwneud â diogelu ar-lein yn yr un modd ag addysgu wyneb yn wyneb. Dilynir polisïau a gweithdrefnau ar gyfer cyfeirio digwyddiadau o gamddefnyddio bob amser. Cyn cynnal sesiwn ffrydio byw bydd yr holl staff dan sylw yn:

- Ystyried pwrpas, buddion a chyfyngiadau gwers ffrydio byw, ac ystyried a yw dull arall yn fwy priodol.
- Ystyried argaeledd yr holl ddysgwyr dan sylw yn ogystal â nifer y dysgwyr yn y sesiwn.
- Sicrhau fod hyd y sesiwn ffrydio byw yn briodol i'w dysgwyr.
- Ystyried argaeledd /cryfder cysylltiad rhwydwaith pob dysgwr a chymryd camau i ddarparu'r amodau gorau posibl ar gyfer cysylltedd sefydlog os oes angen (h.y. darparu dyfeisiau MiFi).
- Ystyried fformat gwersi gwahanol os yw'n debygol y bydd anghydraddoldeb mynediad oherwydd materion cysylltedd, materion caledwedd, gofalu am frodyr a chwiorydd neu unrhyw reswm arall.
- Sicrhau fod y wers wedi'i chynllunio ymlaen llaw a bod 24 awr o rybudd yn cael ei roi i ddysgwyr a rhieni / gofalwyr yn ôl yr angen.

- Ceisio awdurdodiad gan y Pennaeth i wneud ffrydio byw a rhoi gwybod i'r Tîm Arwain am amserlen gynlluniedig pob gwers.
- Gwirio fod yr holl gynnwys yn briodol ac ar gyfer unrhyw dasgau sydd angen ymchwil ar-lein, gwirio addasrwydd y gwefannau cyn y wers.
- Sicrhau fod gan bob dysgwr fynediad at y meddalwedd sy'n ofynnol.
- Ymgyfarwyddo â nodweddion Google Meet a sut i'w defnyddio'n effeithiol.
- Sicrhau fod pob dysgwr wedi derbyn a chytuno canllaw Defnydd Derbyniol yr ysgol.
- Lle nad yw'n bosibl cael 2 berson i gymryd rhan yn y sesiwn Dysgu Byw, am ba reswm bynnag, byddwn yn cydymffurfio â'r newidiadau i ddiweddariad LlC dyddiedig Ionawr 2021.

Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach ar y parth diogelwch Ar-lein ar Hwb.

**Gweithio gydag asiantaethau eraill / rhannu gwybodaeth**
Os oes angen cau'r ysgol yn annisgwyl byddwn yn cydweithio gyda Gwasanaethau Plant a phartneriaid eraill i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed. Os bydd yn rhaid i ysgolion ddychwelyd i sefyllfa o ddysgu o bell, yna bydd yr ysgol yn cysylltu â phlant a nodwyd ar 'restr dysgwyr bregus' yr ysgol yn rheolaidd. Bydd asiantaethau perthnasol eraill sy'n cymryd rhan yn cael eu hysbysu lle na ellir cysylltu neu os bydd pryderon yn codi. Bydd yr ysgol yn parhau i gymryd rhan ym mhob cyfarfod amlasiantaethol perthnasol er mwyn diogelu plant a phobl ifanc.

**Rhestr Dysgwyr Bregus / Cofnodion Cyswllt (yn ystod cyfnodau o gau ysgolion)**
Gall y rhestr o ddysgwyr sy'n agored i niwed newid yn rheolaidd; er enghraifft, mewn ymateb i rybudd Encompass a dderbyniwyd gan yr ysgol. Byddwn fel ysgol yn:
a) Adolygu'r rhestr yn rheolaidd
b) Cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r holl ddysgwyr bregus
c) Cysylltu â Swyddog Lles yr ysgol ac ymarferwyr perthnasol eraill lle na allwn gysylltu â dysgwyr / teuluoedd sy'n agored i niwed
ch) Cadw cofnod o'r holl gyfathrebu â dysgwyr a theuluoedd

**Gweithdrefnau lleol yn ystod yr amser hwn**
Bydd Hwb Diogelu Casnewydd yn parhau i ymateb i atgyfeiriadau sy'n nodi bod plentyn / person ifanc **mewn perygl o niwed**. Diffinnir hyn fel:
- Plentyn / person ifanc sydd wedi datgelu ei fod wedi cael niwed corfforol gan arwain at anaf neu gleisio
- Plentyn / person ifanc nad oes ganddo'r gallu i gyfathrebu sydd ag anaf neu gleisio sy'n anesboniadwy.
- Honiad o gam-drin rhywiol
- Y tebygolrwydd y bydd camdriniaeth yn digwydd ar unwaith os nad ymchwilir i'r mater o dan weithdrefnau amddiffyn plant.

Bydd atgyfeiriadau'n parhau i gael eu gwneud i Wasanaethau Plant Casnewydd gan ddefnyddio ffurflen Duty to Report (DTR) (ffurflen atgyfeirio amlasiantaethol (MARF). Mae'r ffurflen hon i'w gweld ar wefan Diogelu Gwent: https://www.gwentsafeguarding.org.uk/en/Children/Report/Report-a-child-at-risk.aspx

Dylid anfon y MARF at: Children.duty@newport.gov.uk

Ar ôl 5yh, ar benwythnosau a gwyliau banc, cysylltwch â Thîm Dyletswydd Brys De Ddwyrain Cymru (EDT) i roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu: **0800 328 4432**

*Os ydych chi'n credu bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl uniongyrchol, cysylltwch â'r Heddlu ar **999***

**Pryderon ynghylch ymarferydd** a allai beri risg diogelu i blant: dilynir y gweithdrefnau arferol (gweler y polisi) a chysylltir â'r Swyddog Dynodedig Awdurdod Lleol (LADO) / Swyddog Diogelu Addysg (ESO) i gael cyngor. Os nad yw ar gael, cysylltir â'r Hwb Diogelu i gael cyngor. Gellir cyrchu mwy o wybodaeth trwy wefan **Gweithdrefnau Diogelu Cymru**

**Canllawiau perthnasol eraill**
https://gov.wales/guidance-supporting-vulnerable-and-disadvantaged-learners
https://gov.wales/operational-guidance-schools-and-settings-autumn-term-covid-19
https://gov.wales/keeping-children-and-young-people-safe-non-statutory-guide-practitioners

Brig y ddogfen